## PN144 - HYSBYSIAD PREIFATRWYDD CYSWLLT BUSNES TORFAEN

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn ymrwymo i amddiffyn eich preifatrwydd pan fyddwch yn defnyddio ein gwasanaethau. Bwriad yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn yw rhoi gwybodaeth i chi am y data rydym yn ei gadw amdanoch, sut rydym yn ei ddefnyddio, eich hawliau mewn perthynas â hynny a'r rhagofalon sy'n bodoli i'w amddiffyn

| | |
|---|---|
| **Maes Gwasanaeth CBST:** | Economi ac Amgylchedd |
| **Maes gwaith:** | Tîm Ymgysylltiad Busnes |
| **Manylion Cyswllt** | Kate Blewitt |
| **Enw Hysbysiad Preifatrwydd:** | Cyswllt Busnes Torfaen |

**Rheolwr Data:**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**
**d/o Y Ganolfan Ddinesig**
**Pont-y-pŵl**
**NP4 6YB**

Os hoffech chi fynegi pryder ynglŷn â thrin eich data personol, cysylltwch â'r **Swyddog Diogelu Data** gan ddefnyddio'r manylion isod:

**01495 762200**
**dpa@torfaen.gov.uk**

Mae'r Hysbysiad yma'n gosod gerbron sut bydd data personol y mae Cyswllt Busnes Torfaen yn ei gasglu oddi wrthych chi yn cael ei brosesu, ei ddefnyddio a'i ddatgelu gennym.

Mae gwasanaethau a ddarperir gan Gyswllt Busnes Torfaen sy'n rhan o Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ac a gyfeirir atynt fel gwasanaethau yn yr Hysbysiad yma'n cynnwys, heb fod yn gyfyngedig i:

- Cynorthwyo, cyfarwyddo, cynghori a chyfeirio busnesau (gan gynnwys busnesau cychwynnol)
- Clybiau Busnes
- Cymorth Buddsoddiad Mewnol
- Cynhyrchion ariannol
- Digwyddiadau busnes

### 1) Pwy sy'n darparu eich data i'r Cyngor?

Mae'r wybodaeth bersonol rydyn ni'n ei phrosesu yn cael ei rhoi i ni'n uniongyrchol gennych chi pan fyddwch chi'n:

- Cysylltu â ni ynglŷn â'n gwasanaethau
- Cofrestru ar gyfer a/neu brynu a/neu gytuno i dderbyn neu fynd at ein gwasanaethau
- Cydsynio i dderbyn gohebiaeth marchnata a gwybodaeth
- Cymryd rhan yn wirfoddol mewn ymchwil ac arolygon

Rydym yn derbyn gwybodaeth bersonol yn anuniongyrchol oddi wrth wasanaethau eraill ar draws yr awdurdod.

## 2) Sut mae'r Cyngor yn casglu'r wybodaeth hon:

Rydym yn casglu data personol trwy ddulliau ar ar-lein ac all-lein:

- dros y ffôn
- trwy'r wefan
- yn ysgrifenedig
- trwy'r cyfryngau cymdeithasol
- yn bersonol mewn digwyddiadau ac arddangosfeydd
- mewn cyfarfodydd 1:1

## 3) Pa wybodaeth mae'r Cyngor yn ei chasglu amdanoch chi?

Wrth i ni ddarparu gwasanaethau i chi a/neu eich bod yn mynd at y rhain, mae Cyswllt Busnes Torfaen yn casglu ac yn prosesu swm cyfyngedig o ddata personol. Bydd y math o wybodaeth yn amrywio yn ôl pa gymorth busnes yr ydym yn ei rhoi i chi a'ch busnes. Mae'r data personol y gallwn fod yn ei gasglu'n cynnwys:

- Enw
- Cyfeiriad
- Rhifau ffôn
- Cyfeiriadau e-bost
- Statws anabledd
- Ethnigrwydd
- Gwybodaeth ariannol

**Data Busnes:** Rydym hefyd yn casglu gwybodaeth am eich busnes neu eich busnes newydd posibl er mwyn i ni gynllunio, darparu a gwerthuso gwell wasanaethau yn ogystal â dadansoddi a phroffilio'r busnesau yr ydym yn cefnogi. Bydd unrhyw ddata sy'n fasnachol sensitif yr ydym yn ei gael wrth i ni ddarparu'n gwasanaethau'n cael ei drin yn gyfrinachol.

## 4) Pam fod y Cyngor yn prosesu eich data personol?

O dan Erthygl 6 o Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU), y seiliau cyfreithlon rydym yn dibynnu arnynt ar gyfer prosesu'r wybodaeth hon yw:

**(a)** Eich caniatâd. Rydym yn prosesu'ch data personol pan fyddwch yn rhoi caniatâd gwirfoddol, diamwys i dderbyn gohebiaeth yn ymwneud â busnes gennym. Yn yr ohebiaeth yma byddwn bob amser yn rhoi cyfle i ddewis hepgor. Gallwch hefyd ddanfon e-bost atom ar unrhyw adeg trwy businessdirect@torfaen.gov.uk neu ein ffonio ar 01633 648735 i stopio derbyn y rhain. Nodwch os gwelwch yn dda na fydd newidiadau efallai'n dod i rym yn syth. Byddwn yn ymdrechu i gydymffurfio â'ch cais cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl. Nid ydym yn dibynnu ar ganiatâd fel sail gyfreithiol ar gyfer unrhyw brosesu arall.

(e) Rydyn ni ei hangen i gyflawni tasg gyhoeddus. Mae Cyswllt Busnes Torfaen wedi ymrwymo i roi gwasanaeth proffesiynol i chi a datblygu gwelliannau i'n gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r data personol yr ydych yn ei roi i ni yn ein galluogi i gyflawni a bodloni'n rhwymedigaethau gyda chi â'ch busnes/sefydliad neu fusnes newydd posibl mewn ffordd effeithiol.

## 5) Categorïau Arbennig o ddata personol:

Efallai byddwn yn casglu'r data categori arbennig canlynol:

- data personol yn datgelu tarddiad hiliol neu ethnig
- data'n ymwneud ag iechyd

Rydym yn casglu hyn o dan Erthygl 9 GDPR y DU.

Nid ydym yn casglu unrhyw ddata troseddol.

## 6) Pwy sydd yn cael defnyddio'ch data?

Efallai byddwn yn rhannu gwybodaeth bersonol ag adrannau eraill y Cyngor sy'n gweithio gyda Chyswllt Busnes Torfaen i gynnig a chyflenwi gwasanaethau cymorth busnes perthnasol. Mae eich data'n cael ei rannu'n fewnol dim ond gyda'r staff priodol ble mae'n angenrheidiol i berfformio eu rolau.

Bydd angen i daliadau, os yn berthnasol, fod trwy'r gwasanaeth Gwnewch Daliad ar wefan Cyngor Torfaen.

Er mwyn gwella'n gwasanaethau, efallai byddwn yn rhannu gwybodaeth wedi ei throi'n ddienw, ymchwil a dadansoddiad gyda sefydliadau perthnasol eraill.

Hefyd, efallai byddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol gyda sefydliadau allweddol er mwyn bodloni rhwymedigaethau'r Cyngor fel yr awdurdod arweiniol ar

gyfer Cronfa Ffyniant Cyffredin y DU. Gwelwch Hysbysiad Preifatrwydd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU am fwy o wybodaeth.

Ar wahân i'r hyn a nodwyd yn flaenorol, nid ydym yn trosglwyddo eich manylion i drydydd partïon oni bai bod gofynion cyfreithlon i wneud hynny.

**Ydy'r Data'n cael ei drosglwyddo y tu allan i'r DU?**

Nac ydy

## 7) Sut mae'r Cyngor yn cadw eich data'n ddiogel?

Mae gan y Cyngor bolisïau mewnol ar waith i sicrhau nad yw'r data y mae'n ei brosesu yn cael ei golli, ei ddinistrio, ei gamddefnyddio na'i ddatgelu'n ddamweiniol. Cyfyngir ar fynediad i'r data hwn yn unol â pholisïau mewnol y Cyngor ac yn unol â GDPR y DU.

Bydd data'n cael ei storio'n ddiogel mewn:

- Cronfa ddata electronig diogel

Pan fo'r Cyngor yn cyflogi trydydd partïon i brosesu data personol ar ei ran, maen nhw'n gwneud hynny ar sail cyfarwyddiadau ysgrifenedig. Mae gan y trydydd partïon yma ddyletswydd cyfrinachedd hefyd ac mae'n rhaid iddyn nhw weithredu mesurau priodol i sicrhau diogelwch data.

## 8) Am ba mor hir mae'r Cyngor yn cadw eich data?

Dim ond am y cyfnod sy'n angenrheidiol y bydd y Cyngor yn cadw eich data personol a bydd yn dilyn safonau sefydliadol a safonau'r Awdurdod Lleol yn y maes hwn. Ar ddiwedd y cyfnod cadw bydd y Cyngor yn dinistrio neu'n gwaredu'r data yn ddiogel yn unol ag amserlenni cadw.

## 9) Ydyn ni'n gwneud penderfyniadau awtomataidd/yn proffilio gyda'ch data?

Na

**Eich hawliau**

Mae gennych nifer o hawliau y gallwch eu harfer:

- Mynediad - cael copi o'ch data ar gais
- Cywiriad - mynnu bod y Cyngor yn newid data anghywir neu anghyflawn
- Gwrthwynebu, Cyfyngu neu Ddileu - mewn rhai amgylchiadau penodol gallwch ofyn i'r Cyngor ddileu neu beidio â phrosesu eich data, er enghraifft os nad yw'r data bellach yn angenrheidiol at ddibenion prosesu
- Hygludedd data – cael derbyn a/neu drosglwyddo data a roddwyd i'r Cyngor i sefydliadau eraill (mae hyn yn berthnasol mewn amgylchiadau cyfyngedig)

- Dynnu'ch caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg (ble rhoddwyd caniatâd)
- Gwybod canlyniadau eich bod yn methu â darparu data i'r Cyngor
- Gwybod am fodolaeth unrhyw benderfyniadau awtomataidd, gan gynnwys proffilio a goblygiadau hyn i chi.
- Hawl i gyflwyno cwyn i awdurdod goruchwylio (Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth)

Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau yma, cysylltwch os gwelwch yn dda â:

Kate Blewitt, Arweinydd Y Tîm Ymgysylltu Â Busnes, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen:
Ffôn: 01633 648329
E-bost: Kate.Blewitt@Torfaen.gov.uk

Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru), 2il Lawr, Tŷ Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd CF10 2HH, Ffôn 0330 414 6421 neu e-bost at Wales@ico.org.uk.

## RHEOLAETH DOGFENNAU

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl:** | **Cyswllt Busnes Torfaen** | | |
| **Perchennog y Ddogfen:** | **Uwch Berchennog Gwybodaeth Risg** (UBGR) | | |
| **Awdur y Ddogfen:** | **Kate Blewitt** | | |
| **Cyfeirnod:** | **PN144** | **Cyfnod Cadw:** | **Tan yr Adolygiad nesaf** |
| **Dosbarthiad y Ddogfen:** | Swyddogol | **Lleoliad** | SWOOP |
| **Fersiwn / Statws** | 2.0 Byw | **Cymeradwywyd gan** | UBGR |
| **Dyddiad Cyhoeddiad Presennol** | Chwefror 2024 | **Dyddiad yr Adolygiad nesaf** | Chwefror 2027 |

## HANES ADOLYGU

| Dyddiad Cyhoeddi | Fersiwn / Statws | Rheswm dros Newid | Newidiwyd gan: |
|---|---|---|---|
| Rhagfyr 2022 | V1.0 byw | Cydymffurfio â GDPR y DU | Kate Blewitt |
| Mai 2023 | V1.1 byw | Ychwanegu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU | Kate Blewitt |
| Chwefror 2024 | V2.0 byw | Dolen we wedi'i diwygio, newid gwybodaeth gyswllt | Jonathan Darroch |
| | | | |